

MAP (MAHAP, MAPES), WALTER (1140? - 1209?), archddiacon

Enw: Walter Map
Dyddiad geni: 1140?
Dyddiad marw: 1209?
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: archddiacon
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

ffigur pwysig (ac a ystyrir gynt yn bwysicach fyth) yn llenyddiaeth ei oes. Rhaid ymwrthod â'r syniad ei fod yn Gymro (nid o'r gair Cymraeg 'mab,' fel y byddid yn credu, y daw ei gyfenw); ni alwai mohono'i hun yn Gymro, ond yn 'gymydog' i'r Cymry; nid yw'n amlygu unrhyw gydymdeimlad â Chymru, ac nid yw ei wybodaeth o faterion Cymreig byth yn awgrymu gwybodaeth 'oddi mewn.' Y mae'n sicr mai brodor o gyrion Henffordd ydoedd. Yr oedd ei rieni wedi gwneud rhyw gymwynas â Harri II cyn i hwnnw esgyn i'r orsedd, a chafodd Walter ffafr y brenin tra bu Harri 'n fyw. Bu'n astudio ym Mharis o tua 1154 hyd 1160, beth bynnag. Erbyn 1162, yr oedd yn un o 'glerciaid' y llys brenhinol, a bu'n farnwr ar gylchdeithiau sawl tro, e.e. yn 1173 a 1185. Bu gyda Harri yn Ffrainc fwy nag unwaith, ac anfonwyd ef gan y brenin i Gyngor y Lateran yn Rhufain yn 1179. Yn y byd eglwysig, yr oedd yn brebendari yn S. Paul 's, yn ganon ac yn gantor ac wedyn yn ganghellor, yn Lincoln. Rhoes marw Harri II derfyn ar ei yrfa fel g r llys, ond yn 1197 penodwyd ef yn archddiacon Rhydychen; cynigiwyd ef i fod yn esgob Henffordd yn 1199, ond ni fynnai'r brenin John mo hynny; yn 1203, awgrymodd ei gyfaill [Gerallt Gymro](#) (Giraldus) ei enw am esgobaeth Tyddewi - braidd dros yr ysgwydd, efallai. Yr oedd yn fyw ganol Mawrth 1208, ond yn 1210 sonia [Gerallt](#) amdano fel 'y diweddar.' Y mae ysgrif helaeth arno yn y *D.N.B.*, gan C. L. Kingsford, ac ysgrif Gymraeg arno yn *Y Llenor*, 1931.

Credid gynt mai Map oedd awdur y canu 'Goliardaidd,' 'cerddi'r glêr,' a argraffwyd gan Thomas Wright yn 1841 - *Latin Poems attributed to Walter Map*. Ni chredir hynny heddiw, serch i M. R. James, g r o farn, dueddu i wrthod anghredu (ar y sail ' na wyddai ef am neb arall ym Mhrydain a allai sgrifennu'r cerddi ' ond Map). Yn yr un modd, anghredir heddiw'r dyb mai Map bioedd stori Lawnsloot yn y rhamantau Arthuraidd - gweler yr ymresymiad o blaid y dyb sydd gan Kingsford. Hen gamsyniad ystyfnig drachefn, yw uniaethu Map (gan iddo fod yn archddiacon Rhydychen) â'r archddiacon Walter o Rydychen (gweler dan ' Walter Calenius ' yn y *D.N.B.*) y dywed [Sieffre o Fynwy](#) iddo gael 'hen lyfr Llydaweg ' ganddo - yr oedd y Walter hwnnw wedi marw pan oedd Map yn fachgen. Fel y mae hi, yr unig waith y gellir i sicrwydd ei briodoli i Map yw'r *De Nugis Curialium* (efallai y gellid ei alw yn Gymraeg ' Lloffion o'r Llys'), nad yw ar glawr ond mewn un llawysgrif (Bodley 851), a argraffwyd yn bur wael (gan fod yr ysgrifen yn anodd i'w chodi) gan Thomas Wright yn 1850, ac yn llawer iawn cywirach gan M. R. James yn 1914; cyhoeddodd y Cymmrodorion yn 1923 gyfieithiad Saesneg gan James, gyda nodiadau hanesyddol gan [\(Syr\) J. E. Lloyd](#) a nodiadau ar y chwedloniaeth gan E. S. Hartland; cyhoeddwyd detholiad Cymraeg o'r storïau yn 1941 (Llandybie). Nid Map ei hun a 'drefnodd' y llyfr - pe bai trefn arno - nac a roes y teitl iddo (benthg yw hwnnw o is-deitl *Policraticus* John o Salisbury). Casgliad difyr dros ben ydyw, o chwedloniaeth, 'adeiladaeth,' dychan, ac atgofion am hanes cyfoes. Gan i Map fod yn llygad-dyst, y mae'r pethau a adroddir ganddo am benaethiaid y gwledydd yn ei ddydd, a'i farn ar eu cymeriadau, yn werthfawr. Fel [Gerallt Gymro](#) yntau, ni phetrusai chwaith feirniadu'r Eglwys, ac yn enwedig yr urddau mynachaid, yn bur hallt. Edrydd hefyd nifer o storïau am Gymru, ac y mae'n ddiddorol ar [Gruffudd ap Llywelyn](#). Nid oes ddadl nad oedd Map yn ysgolhaig da; rhifodd M. R. James gryn ddeugain o feirdd a llenorion Lladin, o'r cyfnod clasurol a chyfnod y Tadau, y mae dyfyniadau neu atseiniau ohonynt yn y *De Nugis* - heb sôn am yr adnabyddiaeth drwyadl o'r *Beibl* a ddengys. Eto, afrwydd ac anodd yw ei arddull Ladin (o bosibl mai ar lygredd ein llawysgrif y mae peth o'r bai), ac ni ddeil ei gymharu â Lladin rhugl [Gerallt Gymro](#).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

